**DAETH angerdd y disgo i stryd fawr y dref wrth i wyliau'r haf ddechrau gyda chân.**

Gwisgodd pobl y Rhyl eu hesgidiau dawnsio er mwyn mwynhau cerddoriaeth o'r 70au a'r 80au.

Roedd digwyddiad am ddim diweddaraf Cyngor Tref y Rhyl - Retro Rhyl – yn taro'r nodau cywir i drigolion ac ymwelwyr â'r dref, pob un yn mwynhau pryn-hawn o gerddoriaeth fyw.

Canodd gŵr a gwraig Paul a Jodie Doody ganeuon o Grease,
Perfformiodd y band teyrnged Echo Beach ganeuon ysgubol yr 80au, a chyn-haliodd Glenn Mitchell o'r Rhyl, prif ganwr gydag act deyrnged y Beatles, The Cavernites, ddisgo ar y stryd.

Ymunodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James â'r dawnsio gyda difas y disgo ar gyfer y digwyddiad.

Meddai: "Retro Rhyl oedd y cyntaf o ddigwyddiadau gwych yr haf yn y dref ac roedd pawb a ddaeth yn mwynhau'r gerddoriaeth o'r 70au a'r 80au.

"Ynghyd â'n digwyddiadau ni ein hunain, mae'r cyngor tref yn cefnogi eraill gan gynnwys gŵyl gerdd Cyngor Sir Ddinbych ym mis Awst, a fydd yn gweld Heather Small o M People yn perfformio yn yr arena.

"Mae gan y Rhyl farchnad bwyd tramor i edrych ymlaen ati hefyd ac mae'r sioe awyr boblogaidd yn dod ddiwedd mis Awst. Mae rhywbeth i bawb dros fisoedd yr haf – mae'r Rhyl yn llawn gweithgareddau gyda llawer i edrych ymlaen ato."

Digwyddiad nesaf y cyngor tref ei hun fydd Y Rhyl Wyllt. Bydd yn cynnig gweithgareddau dydd yng nghefn gwlad a sesiynau blasu – mae digwyddiad y Rhyl Wyllt yn ei drydydd flwyddyn ac fe'i rhedir ar y cyd gyd Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych.

Cynhelir digwyddiad eleni yng Nglan Morfa, Marsh Road, ar Fedi 22.

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications